CYNGOR SIR PENFRO

Trefniadau Derbyn i Ysgolion ar gyfer 2018/19

Cynigir y trefniadau canlynol ar gyfer derbyn i Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir yn Sir Benfro ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

1. Polisi Derbyn

a) Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn, heblaw ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir; y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn yn yr achosion hynny.

b) Caiff rhieni fynegi blaenoriaeth ar gyfer ysgol ac mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn fodloni'r flaenoriaeth honno oni bai y byddai hynny'n peryglu darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Yn ei hanfod, os oes digon o leoedd ac adnoddau ar gael yn yr ysgol, bydd y lle'n cael ei ddarparu. Dylai holl rieni darpar ddisgyblion fynegi blaenoriaeth drwy ddefnyddio system dderbyn ar-lein y Cyngor.

c) Dyrennir lleoedd hyd at nifer derbyn yr ysgol heb gymhwyso unrhyw amodau. Fodd bynnag, os bydd mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad terfyn cyhoeddedig na'r nifer derbyn, bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i ddyrannu lleoedd mewn ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir:

1. Disgyblion sy'n Derbyn Gofal ar hyn o bryd neu a fu'n Derbyn Gofal gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Disgyblion sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol.
3. Anghenion meddygol, seicolegol neu ddysgu ychwanegol eithriadol (gweler nodyn 1).
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer o oed ysgol statudol yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (gweler nodyn 2).
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd wedi mynd i ysgol fwydo (gweler nodyn 3).
6. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer o oed ysgol statudol yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (gweler nodyn 2).
8. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol sydd wedi mynd i ysgol fwydo (gweler nodyn 3).
9. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Lle mae'r flaenoriaeth yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth o dan bob categori gordanysgrifio i frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog (h.y. gefeilliaid, tripledi ac ati). Os yw'r plentyn olaf i'w dderbyn hyd at y Nifer Derbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd yr Awdurdod yn derbyn y brawd/chwaer arall neu'r brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

O ran y categorïau gordanysgrifio sy'n cynnwys maen prawf brodyr a chwiorydd (categorïau 4 a 7), os oes mwy o flaenoriaeth na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sydd agosaf o ran oed i'r brawd/chwaer hŷn sydd eisoes yn yr ysgol (e.e. o ran derbyn i ysgol gynradd, byddai disgybl â brawd neu chwaer ym mlwyddyn 3 yn cael blaenoriaeth uwch na disgybl â brawd neu chwaer ym mlwyddyn 6; o ran derbyn i ysgol uwchradd, byddai disgybl â brawd neu chwaer ym mlwyddyn 9 yn cael blaenoriaeth uwch na disgybl â brawd neu chwaer ym mlwyddyn 11).

Yn achos canlyniad cyfartal mewn unrhyw gategori, cynigir lleoedd i ddisgyblion sy'n byw agosaf i'r ysgol, a fesurir yn ôl y pellter cerdded byrraf o'r giât ysgol agosaf sydd ar gael i'r pwynt lle mae annedd preifat y disgybl yn cyfarfod â'r briffordd gyhoeddus.

Nodiadau

1. Anghenion Meddygol neu Seicolegol

Gall angen meddygol neu seicolegol fod ar gyfer y plentyn neu ei rieni. Er mwyn cael eu hystyried o dan y maen prawf hwn, mae'n **rhaid** i rieni ddarparu tystiolaeth ategol annibynnol **ar yr adeg ymgeisio** sy'n amlinellu pam mae'r ysgol a ffefrir yn fwyaf addas i'r plentyn a'r anawsterau a fyddai'n cael eu hachosi pe byddai'n rhaid i'r plentyn fynd i ysgol wahanol.

Byddai tystiolaeth ategol a fyddai'n cael ei hystyried yn briodol yn cynnwys:

a) Llythyr neu adroddiad gan un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig canlynol: Ymgynghorydd Arbenigol, Pediatregydd Cymunedol, Seicolegydd, Seicolegydd Addysg, Seiciatregydd, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol. Mae'n rhaid i'r llythyr neu'r adroddiad hwn fod wedi'i seilio ar wybodaeth y gweithiwr proffesiynol ei hun am gyflwr ac amgylchiadau'r plentyn / rhiant. Sylwer **NA** dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn.

b) Llythyr neu adroddiad gan weithiwr cymdeithasol proffesiynol cofrestredig y mae'n rhaid iddo fod wedi'i seilio ar ei wybodaeth ei hun am gyflwr ac amgylchiadau'r plentyn / rhiant.

Ni roddir blaenoriaeth o dan y maen prawf hwn os na chyflwynir y dystiolaeth ofynnol ar yr adeg ymgeisio.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'n rhaid i'r anghenion gael eu cadarnhau gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.

2. Brawd neu chwaer

Mae hyn yn golygu brawd llawn/chwaer lawn, hanner brawd/chwaer neu lysfrawd/llyschwaer, neu blant a fabwysiadwyd neu blant maeth, sy'n byw yn yr un cartref ar yr adeg ymgeisio.

3. Ysgol Fwydo

Ysgol fwydo yw ysgol gynradd o fewn yr un 'clwstwr o ysgolion' ag ysgol uwchradd, neu ysgol fabanod sy'n bwydo ysgol iau.

ch) Mae mapiau dalgylchoedd ysgolion ar gael ar-lein yn www.pembrokeshire.gov.uk. Gellir cael gwybodaeth am ddalgylchoedd gan y Swyddog Derbyniadau yn Neuadd y Sir, Hwlffordd hefyd.

d) Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig. Pan fydd cais yn aflwyddiannus, rhoddir rheswm i'r ymgeisydd am y penderfyniad ynghyd â gwybodaeth am ei hawl i apelio i banel apeliadau annibynnol. Fodd bynnag, nid oes hawl apelio mewn perthynas ag addysg feithrin.

2 Niferoedd Derbyn a'r Lleoedd sydd ar gael

Mae niferoedd derbyn wedi'u seilio ar reoliadau "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" ac yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Atodir isod niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir ar gyfer 2018/19 (ychwanegir y rhain yn dilyn yr adolygiad blynyddol o leoedd ysgol yn ystod tymor yr hydref).

3. Dyddiadau Derbyn i Ysgolion

Mae'r Llywodraeth wedi pennu dyddiadau erbyn pryd y mae'n rhaid i blant gyrraedd 5 oed i fod o oedran ysgol gorfodol yn y tymor ysgol canlynol: y dyddiadau hyn yw 31 Awst, 31 Rhagfyr a 31 Mawrth.

Caiff pob disgybl sydd wedi cyrraedd 4 oed ar 31 Awst 2018 neu cyn hynny ddechrau yn y dosbarth Derbyn yn amser llawn ym mis Medi 2018. Fodd bynnag, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan y tymor ar ôl iddo gyrraedd oedran ysgol gorfodol h.y.

- caiff plentyn sy'n 5 oed rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2017 ddechrau yn nhymor y gwanwyn 2018
- caiff plentyn sy'n 5 oed rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2018 ddechrau yn nhymor yr haf 2018
- caiff plentyn sy'n 5 oed rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2018 ddechrau yn nhymor yr hydref 2018 (sylwer, yn yr achos hwn, y bydd y plentyn yn ymuno ar ddechrau Blwyddyn 1 yn lle yn y dosbarth Derbyn).

Mae gan lawer o ysgolion ddosbarthiadau meithrin y caiff disgyblion ymuno â nhw ar sail ran-amser ar ôl iddynt gyrraedd 3 oed. Mae'r dyddiadau cymhwysedd uchod yn berthnasol i'r derbyniadau hyn hefyd a byddant yn pennu pa dymor y gall y plentyn ddechrau. Caiff plant a anwyd rhwng 1 Medi

a 31 Mawrth fynd i ddarpariaeth feithrin amser llawn yn ystod y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

4. Derbyn i Addysg Gynradd – Dosbarth Derbyn

Y terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn dosbarth Derbyn ym mis Medi 2018 fydd 31 Ionawr 2018. Bydd y terfyn amser hwn yn berthnasol i geisiadau ar gyfer pob disgybl a fydd yn cyrraedd 5 oed rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019, hyd yn oed os yw'r rhieni eisiau gohirio dyddiad dechrau eu plentyn hyd nes y bydd yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol, fel y disgrifir uchod.

Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir ar gyfer ysgol benodol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl y terfyn amser. Defnyddir y meini prawf gordanysgrifio os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn seiliedig ar y dyddiad y'u derbyniwyd.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais ar ddyddiad y cynnig cyffredin, sef 16 Ebrill 2018.

Ni fydd gan blant sy'n mynd i ddosbarth meithrin mewn ysgol benodol yr hawl awtomatig i gael lle yn nosbarth Derbyn yr ysgol honno. Bydd angen i rieni wneud cais am le yn yr un ffordd ag ymgeiswyr eraill.

5. Derbyn i Addysg Feithrin

Y terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn dosbarth meithrin yn ystod 2019 fydd 30 Ebrill 2018. Bydd y terfyn amser hwn yn berthnasol i geisiadau ar gyfer pob disgybl a fydd yn cyrraedd 3 oed rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019.

Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir ar gyfer ysgol benodol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl y terfyn amser. Defnyddir y meini prawf gordanysgrifio os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn seiliedig ar y dyddiad y'u derbyniwyd.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig erbyn 31 Gorffennaf 2018. Derbynnir plant bob tymor yn seiliedig ar oedran y plentyn a threfniadau dosbarth meithrin yr ysgol. Rhoddir gwybod i rieni ym mha dymor y gall eu plentyn ddechrau.

6. Derbyn i Addysg Iau

O ran ysgolion babanod ac iau ar wahân, gwahoddir rhieni disgyblion blwyddyn 2 mewn ysgolion babanod i fynegi blaenoriaeth am le yn yr ysgol iau yn ystod tymor yr hydref cyn trosglwyddo. Dosberthir a dychwelir ffurflenni trwy'r ysgol fabanod.

Y terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn ysgol iau ym mis Medi 2018 fydd 22 Rhagfyr 2017.

Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu yn ystod tymor y gwanwyn 2018. Defnyddir y meini prawf gordanysgrifio os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgol benodol.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig ar 1 Mawrth 2018.

7. Derbyn i Addysg Uwchradd

Gwahoddir rhieni disgyblion blwyddyn 6 i fynegi blaenoriaeth am le mewn ysgol uwchradd yn ystod tymor yr hydref cyn trosglwyddo. Bydd modd gwneud cais naill ai ar-lein neu trwy cwblhau ffurflen gais. Yn achos yr olaf o'r rhain, dosberthir a dychwelir ffurflenni trwy'r ysgol gynradd.

Y terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2018 fydd 22 Rhagfyr 2017.

Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu yn ystod tymor y gwanwyn 2018. Defnyddir y meini prawf gordanysgrifio os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgol benodol.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig ar ddyddiad y cynnig cyffredin, sef 1 Mawrth 2018.

8. Ceisiadau Hwyr

Ystyrir ceisiadau hwyr ar ôl yr holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau a bennwyd, oni bai bod rhesymau eithriadol dros gyflwyno'r cais yn hwyr, y mae'n rhaid eu hesbonio ar yr adeg ymgeisio.

Ystyrir ceisiadau hwyr ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig, gan roi ystyriaeth i niferoedd disgyblion presennol/arfaethedig ar yr adeg ymgeisio.

9. Rhestrau Aros

Os na fydd yr Awdurdod yn gallu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol o'i ddewis yn ystod y rownd dderbyn arferol o ganlyniad i ordanysgrifio, rhoddir ei enw ar restr aros tan 30 Medi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol. Rhoddir blaenoriaeth am unrhyw leoedd a ddaw ar gael yn ôl y meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cais am le yn wreiddiol.

O ran ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r rownd dderbyn arferol, delir rhestrau aros tan ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn academaidd y gofynnwyd am y lle. Bydd enwau'n aros ar y rhestr tan y dyddiad cyntaf ar ôl y tymor y derbyniwyd y cais (e.e. bydd ceisiadau a dderbynnir ym mis Medi yn cael eu dal ar y rhestr aros tan 31 Ionawr, ac ati).

10. Newid Ysgol a Ffefrir

Os newidir blaenoriaeth am ysgol benodol ar ôl cyflwyno'r cais gwreiddiol, dylid datgan hyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Derbyn. Os bydd newid o'r fath yn digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, bydd yn cael ei drin fel cais hwyr.

11. Derbyn i Ysgol Portfield a Chanolfannau Adnoddau Dysgu mewn Ysgolion (unedau cysylltiedig)

Ymdrinnir â derbyniadau i Ysgol Arbennig Portfield a Chanolfannau Adnoddau Dysgu dynodedig sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod ar sail lefel asesedig anawsterau dysgu ac anghenion cymhleth disgyblion. **Nid** yw'r meini prawf a ddangosir uchod yn berthnasol.

12. Trosglwyddo Rhwng Ysgolion

Caiff rhieni ofyn am drosglwyddo ar unrhyw adeg. Oni bai bod y trosglwyddo o ganlyniad i newid cyfeiriad, bydd yr Awdurdod yn caniatáu trosglwyddo o un ysgol yn Sir Benfro i un arall ar ddechrau tymor yn unig fel arfer. Mae pob cais am drosglwyddo yn ddarostyngedig i weithdrefnau derbyn arferol a'r ffaith bod lleoedd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd.

Os gofynnir am drosglwyddo ar unwaith am reswm nad yw'n ymwneud â newid cyfeiriad, defnyddir protocol sy'n cynnwys y Gwasanaeth Cynorthwyo Disgyblion. Gwahoddir y rhieni i drafod y cais am drosglwyddo gyda Swyddog Cynorthwyo Disgyblion, a fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu trosglwyddo ar unwaith. Os na fydd y Swyddog Cynorthwyo Disgyblion yn cymeradwyo trosglwyddo ar unwaith, ceir trosglwyddo ar ddechrau'r tymor dilynol yn unig.

Mae taflen ganllaw i rieni sy'n ceisio trosglwyddo eu plentyn (Newid Ysgol – canllaw i rieni) ar gael gan yr ysgol neu'r Swyddog Derbyn ac ar-lein yn www.pembrokeshire.gov.uk.

Ar ôl cytuno ar gais am drosglwyddo ysgol a rhoi gwybod i'r rhieni am hyn trwy lythyr, tybir y bydd y rhieni'n derbyn y lle i'w plentyn yn yr ysgol a ddewiswyd ac na fydd angen lle arnynt yn yr ysgol bresennol mwyach. Os bydd yr amgylchiadau'n newid a bod angen lle mewn ysgol wahanol, neu'r ysgol flaenorol, bydd rhaid cyflwyno cais newydd. Dylai rhieni nodi y gallai'r lle yn yr ysgol y mae eu plentyn yn ei gadael eisoes fod wedi cael ei neilltuo i rywun arall.

13. Gohirio Mynediad i Ddosbarthiadau Derbyn

Caiff rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn mewn dosbarth derbyn (yn ystod neu ar ôl y rownd dderbyn arferol ar gyfer y lleoedd hyn) ofyn i'r dyddiad

dechrau gael ei ohirio hyd nes y bydd eu plentyn wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol (y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 5 oed). Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr awdurdod derbyn yn dal y lle cytunedig i'r plentyn, sy'n golygu na fydd y lle hwnnw ar gael i blentyn arall.

14. Ceisiadau Cynnar

Caiff rhieni wneud cais am le i'w plentyn mewn dosbarth meithrin ar unrhyw adeg o'i enedigaeth, a chânt wneud cais am le iddo mewn dosbarth derbyn flwyddyn cyn dyddiad derbyn tymor yr hydref. Bydd ceisiadau a dderbynnir cyn y rowndiau derbyn arferol (yn seiliedig ar ddyddiad geni'r plentyn) yn cael eu cydnabod, eu dal mewn ffeil a'u prosesu ar yr adeg briodol. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau cynnar.

15. Dal Lleoedd

Y tu allan i'r rownd dderbyn arferol, ni fydd lleoedd yn cael eu dal am fwy na thymor. O ran rhieni sy'n gofyn am ddyddiad derbyn yn y dyfodol (er enghraifft, oherwydd eu bod yn bwriadu symud i'r ardal), cânt gyflwyno cais tymor cyn y bydd angen y lle e.e. os bydd angen lle yn nhymor y gwanwyn, dylid cyflwyno'r cais ar ddechrau'r tymor yr hydref blaenorol ar y cynharaf.

Bydd ceisiadau a dderbynnir mwy na thymor cyn y bydd angen y lle yn cael eu cydnabod, a rhoddir gwybod i'r rhieni y bydd y cais yn cael ei brosesu ar yr adeg briodol.

16. Apeliadau

Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniadau derbyn yn cael eu clywed gan banel apeliadau annibynnol. Dylai llythyrau apêl gael eu hanfon at y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion o fewn 10 niwrnod gwaith o ddyddiad yr hysbysiad sy'n datgan y bu'r cais am le yn aflwyddiannus. Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Penfro sy'n trefnu i'r panel apeliadau gyfarfod, a chlywir apeliadau o fewn 30 niwrnod ysgol o'r dyddiad cau penodedig ar gyfer derbyn apeliadau. Yn ystod gwyliau'r haf, bydd apeliadau'n cael eu clywed o fewn 30 niwrnod gwaith o dderbyn yr apêl yn ysgrifenedig.

17. Fforwm Derbyn

Mae Fforwm Derbyn Sir Benfro yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion derbyn lleol a monitro cydymffurfiad yr Awdurdod Derbyn â'r Cod Ymarfer Derbyn i Ysgolion. Cynrychiolir penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni ac awdurdodau esgobaethol. Cyhoeddir cylch gorchwyl a chofnodion cyfarfodydd y fforwm ar-lein yn www.pembrokeshire.gov.uk

18. Ymgynghori

Mae gan bob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir yr hawl i gael eu hymgynghori ynglŷn â threfniadau derbyn pob awdurdod derbyn yn Sir Benfro. Mae hawl ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir i wrthwynebu'r

trefniadau hyn wedi'i chyfyngu i wrthwynebiad i'w nifer derbyn eu hunain a'r trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Gallai awdurdodau derbyn ysgolion a gynorthwyir gael eu heithrio o ymgynghori am hyd at ddwy flynedd, yn amodol ar fodloni amodau penodol.

19. Gwybodaeth Ychwanegol

I gael gwybodaeth ychwanegol, cysylltwch â:

Huw Jones – Swyddog Proffesiynol – Cynllunio Lleoedd a Derbyniadau
Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
Rhif ffôn: 01473 764551
e-bost: admissions@pembrokeshire.gov.uk

TREFNIADAU DERBYNIADAU I YSGOLION 2018-19

Rhif	YSGOL	Rhif Derbyn 2018-19
2203	SAGESTON CP	17
2209	YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL EGLWYSWRW	20
2212	GOODWICK	19
2214	FENTON CP	50
2220	JOHNSTON CP	30
2222	LAMPHEY PRIMARY	29
2223	YSGOL GYMUNEDOL BRYNCONIN	12
2228	HOOK CP	15
2231	YSGOL LLANYCHLLWYDOG	4
2233	YSGOL GYMUNEDOL MAENCLOCHOG	16
2237	MILFORD HAVEN JUNIOR	93
2242	NARBERTH CP	47
2243	YSGOL BRO INGLI	15
2250	PUNCHESTON CP	10
2253	YSGOL LLANDUDOCH	18
2254	WOLFSCASTLE CP	5
2258	SAUNDERSFOOT CP	40
2260	STEPASIDE CP	28
2261	TEMPLETON CP	16
2265	THE MEADS INFANT & NURSERY SCHOOL	100
2266	TAVERNSPITE CP	29
2267	MOUNT AIREY CP	58
2270	YSGOL GYMUNEDOL CROESGOCH	17
2271	BROAD HAVEN PRIMARY	17
2273	ROCH CP	22
2384	COASTLANDS SCHOOL/ YSGOL Y GLANNAU	12
2385	YSGOL CLYDAU	10
2386	PEMBROKE DOCK COMMUNITY SCHOOL	89
2387	MONKTON PRIORY CP	26
2388	YSGOL GELLI AUR/GOLDEN GROVE COMMUNITY SCHOOL	S40 / C15
2389	YSGOL GLANNAU GWAUN	S12 / C21
2390	YSGOL Y FRENNI	30
2391	PRENDERGAST COMMUNITY SCHOOL	64
2392	PENNAR COMMUNITY SCHOOL	38
2393	NEYLAND COMMUNITY SCHOOL	47

Rhif	YSGOL	Rhif Derbyn 2018-19
2395	YSGOL HAFAN Y MÔR	30
3035	CILGERRAN CHURCH IN WALES VC	19
3036	COSHESTON VC	8
3040	CLEDDAU REACH VC	30
3042	MANORBIER CHURCH IN WALES VC	12
3050	SPITTAL CHURCH IN WALES VC	25
3053	HAVERFORDWEST CHURCH IN WALES VC	39
3055	ST FLORENCE CHURCH IN WALES VC	13
3058	YSGOL GER Y LLAN	21
3059	TENBY CHURCH IN WALES VOLUNTARY CONTROLLED PRIMARY SCHOOL	45
l'w drefnu	ANGLE PENINSULA VOLUNTARY CONTROLLED PRIMARY SCHOOL - NEWYDD	17
	HAKIN/HUBBERSTON VOLUNTARY CONTROLLED PRIMARY SCHOOL - NEWYDD	68
	YSGOL CYFRWNG CYMRAEG 3-16 HWLFFORDD - NEWYDD	45 Cynradd 120 Uwchradd
4031	YSGOL BRO GWAUN	105
4035	THE GREENHILL SCHOOL	214
4038	PEMBROKE SCHOOL	227
4055	SIR THOMAS PICTON	218
4063	MILFORD HAVEN SCHOOL	209
4064	YSGOL Y PRESELI	167
4511	TASKER MILWARD VC	148